Dyddiedig 20 Chwefror 2024

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd)**
**(Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya) 2024**

# GORCHYMYN

**fel y nodir oddi mewn**


Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd)**
**(Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya) 2024**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adran 84 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 20 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn.

3. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 2 y Gorchymyn hwn.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Bydd y Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffordd Llanfynydd (Terfyn Cyflymder 20mya) 2023 yn llwyr a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (B5101 Ffordd Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2016 yn llwyr.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 20 Chwefror 2024 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya) 2024.

## ATODLEN 1
**<u>Terfyn Cyflymder 20mya</u>**

**B5101 Ffordd Llanfynydd, Llanfynydd**, o bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r Ffordd Ddienw 2, a leolir i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd, am bellter o 34 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

**Ffordd Ddienw 1, Llanfynydd, a leolir i'r dwyrain o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd gyda'r B5101 Ffordd Llanfynydd ar bwynt rhwng eiddo a elwir yn Archway House a Thŷ Capel am bellter o 33 metr i gyfeiriad y dwyrain.

**Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd, a leolir i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd gyda'r B5101 Ffordd Llanfynydd ar bwynt rhwng eiddo a elwir yn Llys Awel a New Millward House am bellter o 160 metr i gyfeiriad y gorllewin.

**ATODLEN 2**

**Terfyn Cyflymder 30mya**

**B5101 Ffordd Llanfynydd:** o bwynt 24 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd â'r Ffordd Ddienw 1, a leolir i'r dwyrain o'r B5101 Llanfynydd, am bellter o 367 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** )
**SIR Y FFLINT** ar y 20 )
diwrnod hwn o Chwefror 2024 ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**UWCH GYFREITHIWR**